

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7/7/2020 (Cyfarfod Zoom)

Presennol: Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones,, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2130 Croesawyd yr aelodau a mynegodd Cadeirydd cydymdeimlad gyda Heledd Jones a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar; bu Hedd Parri Roberts yn aelod triw o'r Cyngor dros gyfnod sylweddol, a bydd yr ardal gyfan yn gweld ei golli.

Nid oedd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

2131 Cofnodion: Cytunwyd ar gywirdeb cofnodion cyfarfod rhithiol ar 2il o Fehefin 2020.

2132 Materion y Clerc: Llwybr Cŵn – cytunwyd i gyd-weithio gyda Phartneriaeth Penllyn i dorri'r llwybr ar ei hyd.

2133 Adroddiad Cyngor Gwynedd – Bu Alan Jones Evans i sawl ymweliad safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd yn edrych ar rai o bontydd yr ardal. Mae trwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyrraedd a bydd y gwaith yn cael ei wneud ar hen bont y trê'n pan fydd y tywydd yn ffafriol; bydd gwaith symud tyfiant o bentanau'r bont sy'n arwain at y stesion hefyd yn cael ei wneud; cytunwyd i roi'r gwaith o ail godi'r palmant cerrig o dan y bont wrth Talardd ar y rhaglen waith. Dylai'r gwaith ar y ffordd wrth y Llwyn fod wedi ei gwblhau erbyn hyn. Cytunwyd i roi wyneb newydd ar y palmant rhwng ffos y Pandy at Maes y Pandy. Mae cloddiau'r ffyrdd cefn wedi eu torri mewn da bryd cyn y cynnydd mewn trafndiaeth. Rhoddodd y Cynghorydd wybodaeth fanwl iawn o'r sefyllfa Covid yng Ngwynedd ar hyn o bryd ac ar y niferoedd o swyddogion sy'n gweithio ar y gwaith Profi ac Olrhain achosion. Mae cynlluniau i gadw swyddogion wrth y gwaith hwn am y deunaw mis nesaf. Ar hyn o bryd mae lefel Covid 19 gyda'r isaf yng Nghymru. Mae plant bregus yn derbyn addysg o bell sydd yn derbyn canmoliaeth mawr.

2134 Maes y Pandy: Adroddodd Alan Jones Evans (Cadeirydd Sylfeini) fod y neges wedi ei gyflwyno yn glir yn y cyfarfod rhwng Cynefin a Sylfeini na ellir derbyn datblygiad o wyth tŷ gyda'i gilydd ym Maes y Pandy. Eglurodd Huw Antur (Ysgrifennydd Sylfeini) yr amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy yn y cynllun. Yn y cyfarfod ar 24/6/20 mynegwyd yr angen am bolisi gosod lleol. Bydd Cynefin yn holi Gwynedd a oes modd defnyddio'r grant mewn dwy wedd; yn holi Parc Cenedlaethol Eryri am amodau 106, ac yn ystyried gofod parcio. Bydd Sylfeini yn adrodd yn ôl fel is-bwyllgor i'r Cyngor Cymuned. Yn bwysicaf oll, cytunwyd bod angen tynnu sylw trigolion lleol fod y cynllun ar y gweill a'u hannog i gofrestru gyda'r Tîm Opsiynau Tai.

Dywedwyd yn glir wrth y cyfarfod ar 24/6/20 fod datblygiad o 8 tŷ gyda'i gilydd yn ormod gan nad oes prawf o'r angen lleol.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Ar ôl diolch i aelodau Sylfeini am yr adroddiad, trafodwyd sut i gyrraedd at bobl leol, yn arbennig gan nad yw'n bosib cynnal cyfarfod cyhoeddus yr adeg hon. Cafwyd trafodaeth ar y ffaith fod yr hawl cynllunio tai fforddiadwy sydd ar y tir hwn yn rhwystro'r Parc Cenedlaethol rhag caniatáu adeiladu yn unlle arall yn y pentref, er fod galw am dai preifat sydd ddim yn dai cymdeithasol. Nid yw hunan-adeiladu yn opsiwn ym Maes y Pandy.

- **Cytunwyd** fod angen cyfrif nifer y stoc tai gwag yn Llanuwchllyn.
- **Cytunwyd gyda'r cynnig bod y gwaith yn cael ei wneud mewn 4 wedd.**
- **Cytunwyd** i roi Adroddiad Sylfeini ar yr Agenda bob mis.

2135 Adroddiadau Cyngorwyr:

- i. Eiddo: Adroddodd Huw Antur fod Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi gwneud cais am grant tuag at uwchraddio'r cyfleusterau. Mae angen sicrhau bod y toiledau'n cyrraedd gofynion uwch safonau hylendid yn y cyfnod hwn o Covid 19; soniwyd hefyd am ofynion yswiriant rhag i achos cael ei ddwyn yn erbyn y Cyngor. Cytunwyd fod y gofynion yn y cyfnod hwn yn gyfle i edrych ar
 - asesiad risg,
 - gweithredu rhaglen glanhau ddyddiol, wythnosol a misol
 - gosod arwyddion pwrpasol.

Cytunodd Karl Jones i geisio copi o reolau glanhau presennol Cyngor Gwynedd i'w mabwysiadu gan Gyngor Cymuned Llanuwchllyn. Gellir wedyn eu trafod gyda theulu'r Eagles sydd yn awyddus i barhau i gynorthwyo i gadw'r toiledau ar agor.

- ii. Bedd Syr Ifan: dywedodd Beryl Hughes Griffiths fod y mater o ail-baentio'r llythrennau yn cael ei drafod gan y teulu.
- iii. Gwefan y Paneli: Mae Beryl Hughes Griffiths wedi cwblhau'r gwaith a diolchwyd iddi am y gwaith ardderchog sydd wedi ei gyflawni. Cytunwyd i'r wefan ddod yn "fyw" ar unwaith.
- iv. Adroddiad is-bwyllgor Cyllid – cytunwyd gydag argymhelliad yr is-bwyllgor i gydnabod y gwaith a gyflawnwyd ar y Wefan o Gronfa'r Cadeirydd.
- v. Adroddiad is-bwyllgor y Fynwent: Cytunwyd fod y gwaith a wnaethpwyd ar y *railings* (ochr y maes parcio) yn edrych yn dda iawn. Cytunwyd i beidio â gosod *netting* ar hyd y gwaelod ar hyn o bryd. Gwirfoddolodd Alwyn E Jones ac Arwel Lloyd Jones i dacluso'r ardd fach a'r bedd gyda gordyfiant wrth y porth.
- vi. Maes y Pandy – adroddiad Arwel Lloyd Jones ar gyfarfod gyda'r warden

2136 Materion ariannol: Derbyniodd yr aelodau y manylion trwy e-bost.

- i. Y sefyllfa ariannol: Talwyd am waith perthnasol i'r fynwent (cyfanswm o £1650) a gwaith ar y meinciau (£354)
- ii. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol; roedd yn cymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn 2019-20.
- iii. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2019-20 gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

2137 Materion lleol y Cyngorwyr:

- i. Wyneb Llwybr y Cei – cytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf ar ôl i'r Cadeirydd gael cyfle i drafod gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri.
- ii. Cytunodd Arwel Lloyd Jones i gysylltu gyda Warden Tenantiaid Cynefin i drafod materion perthnasol i Faes y Pandy.

2138 Gohebiaeth

- i. Ymatebwyd i lythyr Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri am agor y ddwy Aran gan fynegi pryder am gyfleusterau a'r angen i ymwelwyr gadw at y llwybrau.
- ii. Ystyriwyd llythyr Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd a chytunwyd i'w ateb gan grybwyll
 - Ymdeimlad cyffredinol o nerfusrwydd am agor yr ardal i ymwelwyr
 - Cefnogi meysydd carafanau lleol trwy atal *camper-vans* rhag gweryslla mewn cil-fannau ac ymateb ar unwaith os byddant yn gweryslla'n anghyfreithlon.
 - Annog ymwelwyr i barchu trigolion lleol (cadw pellter, gwisgo mygydau mewn siopau, mynd a sbwriel gartref gyda nhw ac yn y blaen).
 - Gwagio biniau cyhoeddus yn amlach.
 - Annog ymwelwyr i gadw at y llwybrau yng nghefn gwlad.
 - Gofyn am rannu data lleol am lefel achosion y Cofid 19
 - Ymateb ar frys yn lleol os bydd newid pryderus yn lefel yr haint
 - Cymryd y cyfle i ystyried lleihau dibyniaeth yr economi leol ar dwristiaeth boblog a chwilio am gyfleoedd gwaith parhaol ar hyd y flwyddyn yng Ngwynedd.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/9/20 ; lleoliad / cyfrwng ac amser yn ddibynnol ar amgylchiadau Covid 19

Amser gorffen: 9.30pm